

Llyn Cerrig Bach

Cadwyn Amser



Oes y Cerrig

4000 BC

3000 BC

Yr Oes

2000 BC

Efydd

1000 BC

← blynyddoedd CC

Oes yr

blynyddoedd OC →

Haeearn

y Rhufeiniad ym Mhrydain


I Oes
yr Iâ

Llyn Cerrig Bach

HEDDIW



MAE **Llyn Cerrig Bach** YN SAFLE O OES YR HAERN A DDARGANFUWYD YN YR 1940AU. MAE EI LEOLIAD WRTH YMYL SAFLE RAF Y FALI. GALLWCH BARCIO WRTH YMYL Y SAFLE AC MAE RHAGOR O LE PARCIO YM MAES PARCIO'R GWYLWYR A GWLYPTIROEDD RSPB Y FALI GERLLAW.



YSGRIFENNWYD A DARLUNIWYD GAN JOHN G. SWIGGER
GOLYGYDD Y GYFRES MARION BLOCKLEY
CYNHYRCHWYD GAN BLOCKLEY DESIGN
CYHOEDDWDYD GAN CADW © 2015
CYFIEITHIWYD GAN ALUN GRUFFYDD - BLA TRANSLATION

CADW: PLAS CAREW, UNED 5/7 CEFN COED, PARC NANTGARIN, CAERDYDD CF15 7QQ



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Erwop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Erwop

Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Llyn Cerrig Bach

Cadwyn Amser

GORSAF YR AWYRLU YN Y FALI, 1943:

MAE'R AIL RYFEL BYD YN EI ANTERTH YN EWROP. MAE PRYDAIN YN PARATOI I YMOSOD DROS FFRAINC A'R ALMAEN.

MAE'R MAES AWYR WRTH YMYL LLYN CERRIG BACH YN CAEL EI YMESTYN ER MWYN I AWYRENNAU BOMIO MAWR O AMERICA FEDRU GLANIO YNO.

Y GŴR SYDD YN GYFRIFOL YW'R SWYDDOG MAES WILLIAM OWEN ROBERTS. MAE EI DDYNION YN GYFRIFOL AM DYNNU'R MAWN O YMYL Y LLYN.

UN DIWRNOD AETH UN O'R LORïAU YN SOWND YN Y MWD WRTH YMYL Y LLYN.

AC MAE EI DDYNION YN EI DEFNYDDIO I DYNNU'R LORI YN RHYDD O'R MWD. MAENT YN DEFNYDDIO'R GADWYN DRWY'R DYDD.

MAE MR ROBERTS YN SYLWI A'R HEN GADWYN YN Y MWD...



GAN BARHAU I FEDDWL AM Y GADWYN ANGHYFFREDIN...

MAE MR ROBERTS YN EI DANGOS I MR JONES, PEIRIANNYDD YN RHOSNEIGR.

TYBED A FYDDAI RHYWUN YNG NGAERDYDD YN GWYBOD?

MAE'N GRYF IAWN - OND MAE'N EDRYCH YN HEN.



TYBED PA MOR HEN YW'R GADWYN RYFEDD, MEDDYLIODD MR. ROBERTS?

OND MAE'R GADWYN YN DDIRGELWCH I MR JONES HEFYD. MAE'N GWNEUD DARLUN OHONI AC MAE MR ROBERTS YN ANFON Y DARLUN A LLYTHYR I AMGUEDDFA CYMRU YNG NGAERDYDD, AT Y CYFARWYDDWR YNO - YR ARCHAEOLEGYDD ENWOG SYR CYRIL FOX.



YDI'R GADWYN YN BWYSIG?

EFLYN, MERCH MR ROBERTS

NID YW MR ROBERTS YN SYLWEDDOLI PA MOR HEN A PHWYSIG YW EI DDARGANFYDDIAD!

NID YN UNIG MAE HI'N HEN, MEDDAI SYR CYRIL FOX -

* GWELER Y LLINELL AMSER AR Y CLAWR

MAE HI'N HYNAFOL IAWN!
DYMA DDARGANFYDDIAD
ARCHAEOLEGOL PRIN!

MAE'R GADWYN YN PERTHYN I GYFNOD OES YR HAERN*,
BRON I DDWY FIL O FLYNYDDOEDD YN ÔL...



"CADWYN CAETHWEISION" YW HON MEDDAI'R CYFARWYDDWR
WRTH MR ROBERTS, AC FE'I DEFNYDDIWDYD GAN BOBL OES
YR HAERN YNG NGHYMRU I GAETHIWO CAETHWEISION NEU
GARCHARORION RHYFEL O AMGYLCH EU GYDDFAU.

DROS Y PEDAIR
BLYNEDD NESAF,
GYDA HELP MR ROBERTS,

DARGANFYDDIR DROS GANT A HANNER O GREIRIAU
EFYDD A HAERN YN Y MAWN, YN
OGYSTAL Â LLAWER O DDARNAU
O BREN AC ESGYRN.



CYN HIR DAW SYR CYRIL FOX
I'R SAFLE I ARWAIN ARCHWILIAD
ARCHAEOLEGOL AC I YSGRIFENNU
LLYFR AM Y DARGANFYDDIADAU.

OND PAM MAE'R CREIRIAU HYN I GYD YN Y MAWN?

CREDAI POBL YN OES YR HAEARN
Y GALLAI AFONYDD, NENTYDD A
LLYNNOEDD FOD YN DDRYSAU...

... I MEWN I FYD ARALL.

I FYD Y DUWIAU...

... A'R MEIRW.

GELLID TAFLU CREIRIAU I MEWN I'R
DŴR FEL RHODDION I'R DUWIAU AC
I YSBRYD Y MEIRW.

ROEDD LLAWER O'R CREIRIAU A
DDARGANFUWYD WEDI EU TORRI NEU EU
LLOSGI - EU "LADD" ER MWYN IDDYNT FEDRU
MYND AR Y DAITH I'R BYD ARALL...

A DANGOS NAD OEDD
PWRPAS IDDYNT MWYACH
GAN BOBL EIN BYD NI...

OND YN HYTRACH GAN Y BOBL
O'R BYD ARALL.

WRTH GYNNIG Y RHODDION GALLAI'R
BOBL OFYN I'R DUWIAU NEU YSBRYD
Y MEIRW AM HELP.

EFALLAI TAFLWYD Y CRYMANAU A'R
OFFER FEL FFORDD O OFYN AM
HELP GYDA THYFU CNYDAU A CHADW
ANIFEILIAID...

EFALLAI TAFLWYD YR
ARFAU ER MWYN GOFYN
AM HELP I RYFELA.

SUT LWYDDODD Y CREIRIAU I BARA O DAN Y DDAEAR?

AR WAELOD Y LLYN, MAE'R
CANRIFOEDD YN MYND HEIBIO...

MAE MWYD A THLANHIGION YN
CYWASGU I GREU MAWN

NID OES OCSIGEN, SY'N GOLYGU NAD YN
PETHAU'N RHYDU NA PHYDRU...

SY'N GOLYGU BOD FREN, ESGYRN
A METEL YN GORDESI AC YN PARH.

BELLACH MAE ARCHAEOLEGWYR YN GWYBOD BOD Y CREIRIAU O LYN CERRIG BACH YN DYDDIO O'R CYFNOD RHWNG 400 CC A 100 OC - OND MAE'R 'CADWYNI CAETHWEISION' YN DYDDIO O TUA 60 OC...



PAN GYRHAEDDODD Y RHUFEINIAID YNYS MÔN!


A OEDD CYNNIG Y CADWYNI CAETHWEISION FEL RHODD YN RHAN O DDEFOD I OFYN I'R DUWIAU AM HELP YN Y FRWYDR YN ERBYN Y RHUFEINIAID - EFALLAI HYD YN OEDD PAN OEDD BYDDIN Y RHUFEINIAID YN YMGYNNULL OCHR DRAW I'R FENAI CYN EU HYMGYRCH DERFYNOL AR YR YNYS?

BYDD ARCHAEOLEGWYR YN PARHAU GYDA'U HYMCHWIL, YN CHWILIO AM ATEBION I'R CWESTIYNAU HYN A RHAI ERAILL YNGLŶN AG OES YR HAearn YN YNYS MÔN...



GAN DDEFNYDDIO TECHNEGAU CLODDIO A GWYDDONOL NEWYDD.

GALL GWAITH TIRFESUR...



...NEWID EIN SYNIADAU EFALLAI YNGLŶN Â SUT LE OEDD LLYN CERRIG BACH DDWY FIL O FLYNYDDOEDD YN ÔL.

MAE SAFLE LLYN CERRIG BACH WEDI DOD YN FYD ENWOG O GANLYNIAD I'R DARGANFYDDIADAU YNO...

...A'R HYN A DDYSGWYD AM Y GORFFENNOL O'R CREIRIAU.

HEDDIW, MAE'R TIRLUN OES YR HAEARN WEDI DIFLANNU AC MAE ADAR O BOB MATH YN NYTHU AC YN YMGARTREFU YNO...

ARDDANGOSIR Y CREIRIAU HYN YN SAIN FFGAN: AMGUEDDFA CYMRU YN Y DYFODOL

...AC FELLY MAE'N SAFLE PWYSIG IAWN I'R DYFODOL HEFYD.

ATGYNHYRCHIAD O DRWMPED O OES YR HAEARN - YN SEIHWEDIG AR DDARNAU A DDARGANFUWYD YN LLYN CERRIG BACH!

ATGYNHYRCHIAD O GERBYD RHYFEL YN SEIHWEDIG AR DDARNAU A DDARGANFUWYD YN LLYN CERRIG BACH!

HEDDIW, MAE MERCH WILLIAM OWEN ROBERTS MOR FALCH O'R DARGANFYDDIADAU A WNAED GAN EI THAD FLYNYDDOEDD YN ÔL...

ATHRAWES FU BFLYN ERIOED AC MAE'N PARHAU I ADRODD HANES Y DARGANFYDDIADAU ARCHAEOLEGOL O LLYN CERRIG BACH I GRWPIAU O BLANT YSGOL.

...A'U BOD YN PARHAU I ROI GWYBODAETH I NI AM EIN CYNDADAU O OES YR HAEARN!

y diwedd.


Darganfod!

Gêm i ddau

DARGANFYDDWCH EICH CREIRIAU OES YR HAEARN EICH HUN YN Y GÊM HON! CLODDIWCH O UN SGWÂR I'R LLAL I DDATGELU CLEDDYFAU, CRYMANAU, BLAEN-GWAYWFFYN - A HYD YN OED CADWYNI CAETHWEISION!




MY SITE



1 MAE'R DDAU CHWARAEWR YN LLUNIO DAU GRID O SGWARIAU AR DDARN O BAPUR, GYDA PHOB GRID YN DDENG SGWÂR AR BOB OCHR. LABELWCH BOB RHES GYDA'R LLYTHRENNAU A I J A PHOB COLOFN GYDA'R RHIFAU 1 I 10. NODWCH "FY SAFLE" AR Y GRID UCHAF A "SAFLE FY NGWRTHWYNEBYDD" AR Y GRID ISAF.

2 PEIDIWCH Â DANGOS EICH GRID I'R CHWARAEWR ARALL WRTH I CHI NODI LLEOLIAD PUMP O GREIRIAU OES YR HAEARN AR EI GRID EF NEU HI. DYLAI POB CHWARAEWR OSOD Y CREIRIAU YN LLORWEDDOL NEU'N FERTIGOL GAN DDEFNYDDIO'R LLYTHRENNAU CANLYNOL I GYNRYCHIOU POB DARGANFYDDIAD:

SAFLE FY NGWRTHWYNEBYDD



SSSS CLEDDYF
 DDDD CYLELL
 CCC CRYMAN
 RRR BLAEN-GWAYWFFON
 TT TORCH



3 MAE CHWARAEWYR YN CHWARAE BOB YN AIL GAN ALW RHIF A LLYTHYREN ALLAN O'R GRID: A5 NEU G9 ER ENGHRAIFFT. MAE'R CHWARAEWR ARALL YN EDRYCH AR Y SGWÂR HWNNW AR EI GRID "FY SAFLE" AC OS OES DARGANFYDDIAD AR Y SGWÂR HWNNW DYLAI DDATGAN "TI WEDI DARGANFOD RHYWBETH"

4 DYLAI POB CHWARAEWR GADW COFNOD O BOB YMGAIS DRWY FARCIO'I GRID "FY NGWRTHWYNEBYDD". RHOWCH X OS DAETHOCH O HYD I RYWBETH NEU O OS NA LWYDDOCH.

5 OS BYDD CHWARAEWR YN DYFALLU'N GYWR YM MHOB SGWÂR AR GYFER DARGANFYDDIAD NEILLTUOL, YNA MAE'R DARGANFYDDIAD HWNNW WEDI EI GLODDIO'N LLWYR A RHAID I'R CHWARAEWR ARALL DDATGAN BETH YW'R DARGANFYDDIAD.

POB LWC GYDA'CH GWAITH CLODDIO!




GALLWCH EHANGU'R GÊM DRWY DDARLUNIO GRID LLAWER MWR NEU DRWY DDEFNYDDIO PAPUR GRAFF. GALLWCH DDEFNYDDIO GWAHANOL DDARGANFYDDIADAU O LYN CERRIG BACH: DARNAU O OFFERYNNAU NEU GERBYDAU RHYFEL ER ENGHRAIFFT.

Gwnewch lun!


Gwnewch lun archaeolegol

PAN FYDD ARCHAEOLEGWYR YN DARGANFOD CREIRIAU FEL Y RHAI O LYN CERRIG BACH, MAE ANGEN IDDYNT WNEUD DARLUNIAU CYWIR OHONYNT. DEFNYDDIWCH LINELLAU'R GRID GLAS I WNEUD COPÏ CYWIR O'R ADDURN CRWN O LYN CERRIG BACH YN Y GRID COCH.

Y CWBL FYDD EI ANGEN ARNOCH AR GYFER Y GWEITHGAREDD FYDD PENSEL...



...A RHABIWR EFALLAI!




DYMA'N UNION SUT MAE ARCHAEOLEGWYR YN DARLUNIO CREIRIAU A DDAW O'R GWAITH CLODDIO.

AWGRYM DA! DECHREUWCH DRWY FARCIO YMHLE YN UNION Y DYMUNWCH GOPÏ O'R LINELLAU I'CH GRID. YNA GALLWCH UNO'R DOTIAU HYNNY YN RADDOL.

RYDYM WEDI RHOI CYCHWYN ARNI FEL Y GWELWCH.

POB LWC!



Ond beth yw'r eitem hon?



CHERWYDD EI SIÂP (FEL LLEUAD), MAE ARCHAEOLEGWYR YN RHOI'R ENW 'LUNULA' ARNI, SY'N GOLYGA 'LLEUAD FACH' YN LLADIN. DARGANFUWYD Y CREIRIAU HYN MEWN SAFLEOEDD O'R OES EFYDD AR DRAWS EWROF GYFAN - OND DAETHFYWD O HYD I'R RHAN FWYAF OHONYNT AR SAFLEOEDD YN IWERDDON.

TYBED AI O IWERDDON DDAETH HON YN WREIDDIOL?

DILYN y STORI!

DILYNWCH Y STORI – EWCH I ORIEL YNYS MÔN I WELD COPÍ MAINT LLAWN O GADWYN LLYN CERRIG BACH!

EWCH AR ANTUR I **FYNYDD TWR**, **CAER LEB** A **DIN LLIGWY** I WELD SUT OEDD POBL OES YR HAEARN YN BYW!

AC EWCH I WELD ATGYNHYRCHIAD O Dŷ CRWN O OES YR HAEARN YN **AMGUEDDFA MELIN LLYNNON!**



LAWRLYTHWCH Y COMICS O WEFAN CADW
WWW.CADW.LLYN.CYMRU

ORIEL YNYS MÔN AR Y B5111,
RHOSMEIRCH, LLANGFENI, LL77 7TQ
01248 724444
10.30AM – 5PM.

A DILYNWCH HANES YNYS MÔN YN ORIELAU'R AMGUEDDFA, LLE GALLWCH WELD CROCHENWAITH NEOLITHIG A CHREIRIAU CERRIG, ARFAU O'R OES EFYDD A HYD YN OED COPÍ O'R GADWYN GAETHWEISION O LYN CERRIG BACH!



A CHOFIWCH FYND AM DRO I WELD RHAI O'R SAFLEOEDD ANHYGOEL ERAILL A NODWYD AR Y MAP AR Y CLAWR ÔL. GALLWCH DDYSQU RHAGOR AM GYNHANES RHYFEDDOL YNYS MÔN AC AM FYNYDD TEULWOEDD OES YR HAEARN YNG NGHYTIAU'R GWYDDELOD AR **FYNYDD TWR**, **CAER LEB** A **PHENTREF DIN LLIGWY**, NEU EWCH I **FELIN LLYNNON** I WELD Tŷ CRWN HANESYDDOL MAINT LLAWN O'R OES HAEARN SYDD WEDI EI ADEILADU YNO!

Llywbrau morol
i'r gogledd i
Orkney

Llyn Cerrig Bach

CAER Y TWR
CYTIAU'R
GWYDBLOD
Mynydd TWR
MEINI HIRION
PENRHOS FEGLW

MAEN HIR
Tŷ MAWR
SIAMBR GLADDU
TREFFIGNATH

MAEN HIR
TREGWHELYDD

Melin Llynnon
SIAMBR GLADDU
PRESADDEED

A5
SIAMBR GLADDU
Tŷ NEWYDD

SIAMBR GLADDU
DIN DRYFOL
SIAMBR GLADDU
BODOWYR

CASTELL
BRYN
GWYN

SAFLE CYTIAU
DIN LLUGWY

B5110

B5104

B5112

SIAMBR GLADDU
LLUGWY

Moelfre
Benllech

B5109

A5025

SIAMBR GLADDU
BRYN CELLI DDU

A4080

SAFLE CAËR
LEB

Blwmares

Porthaethwy

Llywbrau dros
y tir i'r de a'r
dwyrain i weddill

Cymru
a Lloegr
ac Ewrop

Gogledd
Cymru

Map o'r Ynys yn dangos y prif safleoedd cynhanesyddol.

A:

- Trefi
- Amgueddfeydd, ac ati
- Prif ffyrdd

Dwy filltir

Llywbrau morol i'r de a'r gorllewin tuag at Iwerddon